Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **Dydd Mercher, 24 Mawrth 2010**

Teitl Cyhoeddi cyllid addysg uwch ar gyfer *Er Mwyn Ein Dyfodol*

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi cyhoeddi bod cronfa newydd wedi cael ei sefydlu i helpu prifysgolion i gyflawni amcanion *Er Mwyn Ein Dyfodol*, strategaeth addysg uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Gwnaed y cyhoeddiad wrth i CCAUC gadarnhau y bydd addysg uwch (AU) yng Nghymru yn derbyn dyraniadau grant o £403 miliwn, heb gynnwys cyllid cyfalaf, yn y flwyddyn academaidd 2010/11, a fyddai hefyd yn annog prifysgolion a cholegau i gymryd camau mawr tuag at gyflawni *Er Mwyn Ein Dyfodol*. Byddai'r arian yn atgyfnerthu rôl sefydliadau addysg uwch ym meysydd hybu cyfiawnder cymdeithasol a chynnal economi bywiog.

Mae'r Gronfa Gweithredu Strategol (CGS) newydd, a ddefnyddir i wireddu'r weledigaeth yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*, yn cynnwys tuag 20% o gyllid refeniw CCAUC ar gyfer y flwyddyn academaidd 2010/11, a bydd yn cael ei chynyddu yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Mae'r dyraniadau grant yn adlewyrchu cynigion cyllideb presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch yn y flwyddyn ariannol 2010-11 sydd, heblaw am eitemau wedi'u gwarchod megis cyllid ar gyfer ailgyflunio a chydweithio, wedi cadw cyllid addysg uwch prif ffrwd ar yr un lefel â'r flwyddyn ariannol 2009-10.

Rhoddir dyraniadau grant ar gyfer addysgu, ymchwil a chyfalaf, a strategaeth a mentrau ym mhrifysgolion Cymru, gan gynnwys rhai elfennau o'r Gronfa Gweithredu Strategol. Mae'r cyllid ar gyfer addysgu hefyd yn cynnal cyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach ar hyd a lled Cymru.

Meddai Roger Thomas, Cadeirydd CCAUC: "Rydym ni'n edrych ymlaen at ymgymryd â'r dasg o gyflawni *Er Mwyn Ein Dyfodol* ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn gweithio'n agos â darparwyr AU, a rhanddeiliaid eraill, i sicrhau bod cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog yn ganolog i addysg uwch a gyllidir gan y llywodraeth yng Nghymru.

"Mae prifysgolion yn rhoi'n ôl i economi Cymru lawer mwy na'r lefelau o fuddsoddi cyhoeddus a dderbyniant, gan gynnwys drwy fuddsoddiad mewnol sylweddol ar ffurf myfyrwyr tramor. Drwy gyfrannu at ddatblygu gweithlu tra medrus, a chynhyrchu a chymhwyso gwybodaeth, mae'r sefydliadau'n dangos eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio arian cyhoeddus i greu Cymru lewyrchus."

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mewn amgylchedd ariannol tynn, rydym yn falch o weld bod y buddsoddiad cyhoeddus sylweddol mewn addysg uwch yn parhau. Mae yna her amlwg i addysg uwch yn yr hinsawdd economaidd hon a byddwn yn annog y sefydliadau i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r arian sydd ar gael, yn unigol a chyda'i gilydd. Wrth i ni ddatblygu ein Cronfa Gweithredu Strategol newydd, byddwn yn parhau i flaenoriaethu dyraniadau cyllid yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn cael yr adenillion gorau posibl o'r buddsoddiad mawr sy'n cael ei wneud o'r pwrs cyhoeddus."

Blaenoriaethau a manylion y cyllid

Mae Cronfa Gweithredu Strategol (CGS) newydd CCAUC yn gynnwys ffrydiau cyllid sy'n canolbwyntio'n benodol ar hybu strategaeth *Er Mwyn Ein Dyfodol* Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chynyddir y gronfa hon yn y blynyddoedd i ddod.

Yn y flwyddyn academaidd 2010/11, mae hyn yn cynnwys swm o £4 miliwn sydd wedi cael ei ailgyfeirio i gefnogi meysydd blaenoriaethol CCAUC a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cafwyd y swm hwn drwy wneud gostyngiad o 3.25% ym mhob elfen fformiwla o gyllid (addysgu, QR, YOR, taliadau premiwm, trydedd genhadaeth, cyllid Graham ar gyfer myfyrwyr rhan-amser), a chaiff ei ailddosbarthu fel a ganlyn:

- **£2 filiwn yn ychwanegol ar gyfer ymchwil**. Dyrannwyd £100k o hyn ar gyfer datblygu'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, defnyddir tua £40k i adfer ymchwil ôl-radd (YOR) i'r hyd ydoedd cyn gwneud y gostyngiad o 3.25%, a defnyddir y gweddill ar gyfer Ymchwil o Ansawdd (QR). Bydd hyn yn caniatáu i £73,901,356 gael ei ddosbarthu drwy'r fformiwla QR yn 2010/11.

- **£2 filiwn ar gyfer ehangu mynediad**. Dyrannwyd y swm hwn i adfer y Premiwm Anabledd i'r hyn ydoedd cyn gwneud y gostyngiad o 3.25%, ac ychwanegir y gweddill at y premiwm ehangu mynediad.

Gan fod cyllido **addysg uwch cyfrwng Cymraeg** yn flaenoriaeth, bydd CCAUC yn parhau i dalu premiwm ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r premiwm hwn wedi cael ei warchod, fel na fydd y swm sydd ar gael yn y maes hwn yn llai na'r hyn oedd ar gael yn y flwyddyn academaidd 2009/10.

Cafodd y **dyraniadau cyfalaf** o £22.6 miliwn ar gyfer 2010-11 eu cyhoeddi ar wahân eleni, gan eu bod yn rhan o becyn cyllido tair-blynedd i gefnogi Cynlluniau Buddsoddi Cyfalaf y prifysgolion. Roedd £7 miliwn o'r cyllid hwn eisoes wedi'i ddwyn ymlaen i 2008-09 a 2009-10 i annog prifysgolion i ymgymryd â phrosiectau adeiladu a gwaith cynnal newydd a fyddai'n cefnogi'r diwydiant adeiladu'n lleol.

Yn ogystal, dyrennir £28.9 miliwn ar gyfer ailgyflunio a chydweithio, *Ymgyrraedd yn Ehangach,* Cymru'n Un ac ailgyflunio HCA.

Bu CCAUC yn ymgynghori'n ddiweddar ar newidiadau i'r dull cyllido ac mae ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gyflwyno ymagwedd ranbarthol at gynllunio a darparu addysg uwch yng Nghymru. Rhagwelir y caiff rhagor o arian ei ailddosbarthu o gyllid craidd i'r Gronfa Gweithredu Strategol yn y blynyddoedd i ddod er mwyn hybu blaenoriaethau *Er Mwyn Ein Dyfodol.*

Diwedd

Nodiadau

Cysylltwch ag
Emma Raczka,
Rheolwr Cyfathrebu, CCAUC
029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Gellir gweld y cylchlythyr llawn am y grant rheolaidd (W10/10HE), gan gynnwys yr holl dablau a dyraniadau cyllid, yn www.hefcw.ac.uk o dan gylchlythyrau / cyhoeddiadau o 24 Mawrth 2010.

Mae'r Gronfa Gweithredu Strategol yn targedu'r blaenoriaethau canlynol yn *Er Mwyn Ein Dyfodol*: ehangu mynediad, myfyrwyr rhan-amser, addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ymchwil, gweithio'n agos â chyflogwyr, hyfforddiant cychwynnol athrawon a chynlluniau strategol.

Mae'r dyraniadau ar gyfer ailgyflunio hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) yn cymryd i ystyriaeth ein gwaith gyda'r sector AU i ad-drefnu darpariaeth HCA yn dair canolfan addysg athrawon. Yn y tair canolfan, caiff dyraniadau HCA ar gyfer 2010/11 eu cyfeirio bellach drwy un yn unig o'r partner sefydliadau. Mae hyn yn

cael effaith ar y canlyniadau cyhoeddedig ar gyfer eu partneriaid. Rhaid rhoi sylw gofalus felly i'n harweiniad manwl ar ymdrin â chymariaethau o flwyddyn i flwyddyn yn gywir.

Nid oes cyllideb arwyddol ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-12 ac mae CCAUC wedi tybio y bydd yn gyllideb wastad (hynny yw, yr un fath yn nhermau arian â'r flwyddyn ariannol 2010-11) at ddibenion cynllunio.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.